

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amgylchedd

Chwefror 2021

## Argymhelliad cyffredinol

Rydym yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil Amgylchedd, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, ac yn ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

### 1. Cyflwyniad

1. Dyma ail adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') ar Fil Amgylchedd Llywodraeth y DU ('y Bil'). Cafodd ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020. Yn yr adroddiad hwnnw, rydym yn argymhell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'n hargymhellion.

2. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu:

- ein casgliadau ar welliannau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer; a
- materion sy'n peri pryder o hyd.

3. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'n hadroddiad cyntaf ar y Bil ac ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion yn yr adroddiad hwnnw.



4. Mae rhifau'r cymalau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

## 2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

5. Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil ('y Memorandwm Atodol') ar 4 Rhagfyr 2020.

6. Ar 8 Rhagfyr 2020, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 4 Chwefror 2021. Ymestynnwyd y dyddiad cau wedi hynny i 24 Chwefror 2021.

### Ein dull craffu

7. Wedi i'r Memorandwm Atodol gael ei gyfeirio at y Pwyllgor, fe wnaethom ni ysgrifennu at y Gweinidog a gofyn iddi ymateb yn ysgrifenedig i nifer o gwestiynau. Mae'r ohebiaeth rhyngom i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

8. Fe wnaethom ni drafod y Memorandwm Atodol ac ymateb y Gweinidog i'n llythyr yn ein cyfarfodydd ar 14 a 21 Ionawr 2021.

### Newidiadau i'r Bil y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer

9. Mae'r Memorandwm Atodol yn nodi'r newidiadau i'r Bil a wnaed yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar eu cyfer. Yn ôl y Memorandwm Atodol, y rhain yw:

- gwelliannau i ddiweddarau enw'r ddeddfwrfa yng Nghymru i 'Senedd Cymru', a
- gwelliannau i gyflwyno darpariaeth newydd (cymal 107 ac Atodlen 16) mewn perthynas â 'defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgaredd masnachol'.

## Cymal 107 ac Atodlen 16 – Defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgaredd masnachol

- 10.** Mae cymal 107 yn cyflwyno Atodlen 16 ac yn nodi'r weithdrefn ar gyfer rheoliadau a wneir o dan yr Atodlen.
- 11.** Mae Rhan 1 o Atodlen 16 yn gwahardd 'person a reoleiddir' rhag defnyddio 'nwydd sy'n risg i goedwigoedd' yn ei weithgareddau masnachol yn y DU oni bai bod y nwydd hwnnw wedi'i gynhyrchu yn unol â deddfau perthnasol yn y wlad tarddiad. Bydd ystyr 'person a reoleiddir' a 'nwydd sy'n risg i goedwigoedd' yn cael ei ddiffinio mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 12.** Mae Rhan 1 o Atodlen 16 hefyd yn gosod gofyniad ar 'person a reoleiddir' i sefydlu a gweithredu 'system diwydrwydd dyladwy' i nodi, asesu a lliniaru'r risg y bydd nwyddau sy'n risg i goedwigoedd a gynhyrchir yn anghyfreithlon yn dod i mewn i'w cadwyn gyflenwi. Bydd gofyn iddynt hefyd adrodd yn flynyddol ar y camau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â diwydrwydd dyladwy.
- 13.** Mae Rhan 2 o Atodlen 16 yn caniatâu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch gorfodi gofynion, a all gynnwys:
- darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau a phwerau i 'awdurdod gorfodi'; a
  - gosod dirwyon neu sancsiynau sifil eraill am fethu â chydymffurfio â gofynion yn Rhan 1 neu reoliadau a wneir o dan Ran 2, neu am rwystro neu fethu â chynorthwyo awdurdod gorfodi.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

- 14.** Yn ôl y Memorandwm Atodol, mae Llywodraeth Cymru yn “cefnogi'r safbwynt polisi a ddarperir gan [gymal 107 ac Atodlen 16]”, gan gydnabod “y risgiau o fethu â symud i gynhyrchu nwyddau allweddol yn fwy cynaliadwy”. Fodd bynnag, mae'n “anghytuno â dadl Defra bod y ddarpariaeth hon yn dod o fewn cymhwysedd a ddargedwir fel y nodir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru”.
- 15.** Mae'r Memorandwm Atodol yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru bod y ddarpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd oherwydd ei bod “yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd, diogelu amgylcheddau coedwigaeth a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, y mae pob un ohonynt wedi'u datganoli”. Fodd bynnag, mae Defra yn honni bod y ddarpariaeth “yn ymwneud â'r mater a gedwir yn ôl yn adran C1, paragraff 65 o Atodlen 7A i Ddeddf

Llywodraeth Cymru 2006 – creu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu mathau o gymdeithasau busnes”.

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

---

**16.** Wrth ymhelaethu ynghylch pam mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r polisi sy'n sail i'r darpariaethau newydd, dywedodd y Gweinidog:

“Mae gwarchod amgylcheddau coedwigoedd gwerthfawr yn ganolog i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd, gan sicrhau bod gan bobl fywoliaethau ddiogel, ac i warchod y systemau naturiol yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer y bwyd yr ydym yn ei fwyta, y dŵr yr ydym yn ei yfed a'r aer yr ydym yn ei anadlu. Bu busnesau cyfrifol yn arwain y ffordd wrth sefydlu cadwyni cyflenwi cynaliadwy i warchod coedwigoedd, ac mae'r polisi hwn yn anelu at gefnogi a chadarnhau'r ymdrechion hyn.”

**17.** Ychwanegodd:

“Rydym yn cefnogi cyfeiriad Llywodraeth y DU er mwyn cynnal safle Cymru fel arweinydd byd-eang yn ein hymatebion i'r newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol disgwyl i nifer fechan o fusnesau mwy yr effeithir arnynt gan y rheoliad hwn orfod gweithio gyda phroses wahanol yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill y DU. Byddai hyn yn arwain at gynnydd di-angen yng nghostau busnes o ganlyniad i gydymffurfio gyda mwy nag un cyfres o brosesau.”

**18.** Mae Atodlen 16 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac nid i Weinidogion Cymru. O ystyried safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol, fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog a fyddai hi'n mynd ar drywydd gwelliant i'r Bil i roi'r un pwerau i Weinidogion Cymru â'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru, neu i sicrhau cyfranogiad gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau o dan Atodlen 16 mewn perthynas â Chymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi'n bwriadu mynd ar drywydd gwelliant o'r fath.

**19.** Esboniodd y Gweinidog fod ei swyddogion wedi sicrhau cytundeb gyda swyddogion DEFRA i gael eu hysbysu am y cynnydd diweddaraf o ran datblygu rheoliadau yn y dyfodol o dan Atodlen 16.

## Ein barn ni

Rydym yn fodlon â'r gwelliannau a wnaed i'r Bil i ddiweddarau enw'r ddeddfwrfa yng Nghymru i 'Senedd Cymru'.

Rydym yn nodi honiad Llywodraeth y DU nad yw cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Rydym yn cydnabod mai bwriad cymal 107 newydd ac Atodlen 16 newydd yw lleihau'r risg o ddatgoedwigo anghyfreithlon a throsi tir o fewn cadwyni cyflenwi busnesau'r DU. Rydym yn credu bod potensial i hyn wneud cyfraniad cadarnhaol at ymdrechion byd-eang i fynd i'r afael â datgoedwigo anghyfreithlon a'r agenda ehangach o ran newid hinsawdd.

Serch yr uchod, er mwyn galluogi Aelodau o'r Senedd i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch cydsyniad deddfwriaethol, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir pam ei bod yn credu ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn maes o gymhwysedd datganoledig. Nid yw'r Memorandwm Atodol yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ddigonol. Er bod llythyr dilynol y Gweinidog atom yn mynd peth o'r ffordd at egluro safbwynt Llywodraeth Cymru, byddem wedi hoffi cael esboniad manylach, a bod hyn wedi'i nodi yn y Memorandwm Atodol.

Yn ei llythyr atom, mae'r Gweinidog yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu dull y DU gyfan o reoleiddio'r defnydd o nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgaredd masnachol. Fodd bynnag, o ystyried barn Llywodraeth Cymru ar gymhwysedd deddfwriaethol, nid yw'n eglur pam nad yw'r Gweinidog o'r farn ei bod yn angenrheidiol i'r Bil sicrhau cyfranogiad Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau o dan Atodlen 16. O ganlyniad, ni fydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i waith craffu gan y Senedd, sy'n destun gofid. Byddem yn ddiolchgar am eglurhad ar y mater hwn.

Rydym yn nodi y bydd llawer o'r manylion mewn perthynas â'r gofyniad diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys yr amodau sy'n penderfynu a fydd busnes yn ddarostyngedig i'r gofyniad, a threfniadau monitro a gorfodi, yn cael eu nodi mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y dyfodol.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fynd ati i ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth ddatblygu rheoliadau ar gyfer y dyfodol, a hynny i sicrhau eu bod yn adlewyrchu buddiannau Cymru yn ddigonol.

**Recommendation 1.** Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog roi esboniad manylach ynghylch pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r Bil i ddeddfu ar ei gyfer defnyddio

nwyddau coedwigoedd mewn gweithgareddau masnachol mewn perthynas â Chymru.

**Recommendation 2.** Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, dylai'r Gweinidog nodi pam nad yw o'r farn bod angen i'r Bil sicrhau bod gan Weinidogion Cymru gyfranogiad wrth i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan Atodlen 16.

### 3. Materion sy'n peri pryder o hyd.

#### Cydweithredu rhwng cyrff llywodraethu amgylcheddol

**20.** Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom ni bwysleisio pa mor bwysig yw cydweithredu rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol cyfatebol yng Nghymru. Cydnabu'r Gweinidog nad oedd y Bil yn darparu'n ddigonol ar gyfer hyn. Dywedodd wrthym ei bod yn ceisio gwelliant i'r Bil "i alluogi trefniadau cydweithredol", ac roedd yn aros am ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw'r Bil wedi'i ddiwygio eto i ganiatáu trefniadau cydweithredol.

#### Tystiolaeth gan y Gweinidog

---

**21.** Gofynnem i'r Gweinidog am ddiweddariad am y gwelliant uchod. Dywedodd wrthym ei bod wedi "dod i gytundeb mewn egwyddor â Defra i gyflwyno'r gwelliant i Gymal 26(1) yng Nghyfnod Tŷ'r Arglwyddi".

#### Ein barn ni

Rydym yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cytuno mewn egwyddor i gyflwyno gwelliant i'r Bil i ganiatáu trefniadau cydweithredol rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a chorff llywodraethu amgylcheddol newydd Cymru. Byddwn yn monitro hynt y Bil drwy'r camau diwygio sy'n weddill yn Senedd y DU. Rydym yn disgwyl gweld cytundeb ar welliant o'r fath cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

#### Pwerau cydredol plws

**22.** Pŵer cydredol plws yw pŵer y gellir ei ddefnyddio mewn perthynas â Chymru gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol fel ei gilydd, a hynny'n annibynnol ar ei gilydd. Fodd bynnag, mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pŵer.

**23.** Mae cymalau 49 i 53 a'r Atodlenni cysylltiedig, cymal 83 a chymal 131 yn y Bil yn cynnwys pwerau cydredol plws.

**24.** O dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ni chaiff y Senedd ddileu nac addasu ochr Gweinidogion y DU o bŵer cydredol plws heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Felly, po fwyaf o bwerau cydredol plws sy'n cael eu creu, y mwyaf o bethau sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd

(oherwydd na all y Senedd addasu na dileu ochr Gweinidogion y DU o'r pwerau cydredol hynny).

**25.** Noda'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil:

“nid oedd digon o amser cyn cyflwyno'r Bil i eithrio'r darpariaethau cydredol plws o'r cyfyngiadau cysylltiedig yn Atodlen 7B. Mae Isysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd yn Senedd y DU wedi gwneud ymrwymiad Gweinidogol i ddatgymhwyso'r darpariaethau hyn.”

**26.** Nid yw'r Bil wedi'i ddiwygio eto i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad:

“Ers hynny, mae swyddogion wedi cael cadarnhad y bydd gwelliant yn cael ei gyflwyno i sicrhau nad yw'r swyddogaethau cydamserol ym Mil y DU yn cael eu dal gan gyfyngiadau Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â swyddogaethau Gweinidogion y Goron.”

## Ein barn ni

Fel y nododd y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn adroddiadau diweddar, mae deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r UE wedi creu llawer o swyddogaethau cydredol newydd. Rydym yn rhannu pryderon y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am yr effaith negyddol y mae hyn yn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys yr eithriadau angenrheidiol cyn diwedd ei daith drwy Senedd y DU. Rydym yn disgwyl y bydd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol ychwanegol ar gael i graffu arno cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.



**Lesley Griffiths AS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Lesley,

Fel y gwyddoch, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amgylchedd (y Memorandwm atodol) wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) i'w ystyried. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 4 Chwefror 2021.

Er mwyn llywio ystyriaeth y Pwyllgor o'r Memorandwm atodol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod.

**Cymal 107 ac Atodlen 16: Y defnydd o nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgarwch masnachol**

Mae'r Memorandwm Atodol yn amlinellu bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ond nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno.

1. Mae'r Memorandwm atodol yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn "cefnogi'r safbwynt polisi a ddarperir gan y ddarpariaeth". A allwch chi nodi'ch rhesymau dros hyn?
2. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon bod rhanddeiliaid Cymru wedi cael digon o gyfle i ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r polisi?
3. I ba raddau yr ydych chi'n fodlon bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu'n gywir buddiannau Cymru?
4. O wybod eich barn mewn perthynas â chymhwysedd deddfwriaethol, a allwch egluro a ydych wedi mynd ar drywydd, neu a ydych yn mynd ar drywydd, diwygiad(au):
  - i roi i Weinidogion Cymru yr un pwerau â'r Ysgrifennydd Gwladol fel ag y maent yn ymwneud â Chymru (gan sicrhau o ganlyniad gyfranogiad y Senedd o ran craffu ar y pwerau hyn), neu



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddNHAMG@senedd.cymru](mailto:SeneddNHAMG@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddCCERA@senedd.wales](mailto:SeneddCCERA@senedd.wales)

 0300 200 6565

- i sicrhau cyfranogiad Gweinidogion Cymru yn y broses ar gyfer rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol Atodlen 16?

5. Os nad yw'n fwriad gennych fynd ar drywydd dim un o'r diwygiadau uchod, sut y byddwch yn sicrhau y bydd rheoliadau yn dyfodol a wneir o dan Atodlen 16 yn cyd-fynd â pholisi a buddiannau Cymru ac yn cynrychioli'r polisi a buddiannau hyn? Pa sicrwydd byddwch chi'n ei geisio gan Lywodraeth y DU yn hyn o beth?

Mae Atodlen 16 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau yn ymwneud â gorfodi, a all gynnwys rhoi swyddogaethau a phwerau i 'awdurdod gorfodi'.

6. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael â Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw 'awdurdod gorfodi' a phwy allai hyn fod? Beth yw canlyniad unrhyw drafodaethau o'r fath?

### **Materion sydd heb eu datrys mewn perthynas â'r Bil Amgylchedd**

Yn eich llythyr, dyddiedig 5 Tachwedd 2020, sonnir am drafodaethau cynhyrchiol â Defra ar ddiwygiad arfaethedig i gryfhau'r ddyletswydd yng nghymal 26(4) (cymal 24(4) gynt) ar Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ('OEP') i ymgynghori â chyrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig. Fe nodwn, fodd bynnag, nad ystyriwyd diwygiad i'r perwyl hwn yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

7. A allwch egluro a ydych chi wedi sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i gyflwyno gwelliant i gymal 26(4) yn ddiweddarach yn y broses ddiwygio? Os nad ydych chi, a allwch chi egluro pa sicrwydd a gawsoch gan Lywodraeth y DU y bydd cydweithredu rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a chorff llywodraethu amgylcheddol Cymru?

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn 14 Ionawr 2021 fan bellaf.

Yn gywir



Mike Hedges AS

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.





Ein cyf/Our ref LG/452/21

Mike Hedges AS  
Pennaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

[seneddNHAMG@senedd.cymru](mailto:seneddNHAMG@senedd.cymru)

13 Ionawr 2021

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Rwy'n fodlon i gynorthwyo ystyriaeth y Pwyllgor o'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol drwy ymateb i'r cwestiynau a amlinellwyd yn eich llythyr.

### Cwestiwn 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi y polisi a gynigwyd gan y ddarpariaeth oherwydd ein bod yn cytuno ei fod yn rhan o adferiad hanfodol o COVID-19, ac mae'n helpu inni greu economi fyd-eang wyrddach, decach a mwy cadarn. Mae gwarchod amgylcheddau coedwigoedd gwerthfawr yn ganolog i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd, gan sicrhau bod gan bobl fywoliaethau ddiogel, ac i warchod y systemau naturiol yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer y bwyd yr ydym yn ei fwyta, y dŵr yr ydym yn ei yfed a'r aer yr ydym yn ei anadlu.

Bu busnesau cyfrifol yn arwain y ffordd wrth sefydlu cadwyni cyflenwi cynaliadwy i warchod coedwigoedd, ac mae'r polisi hwn yn anelu at gefnogi a chadarnhau'r ymdrechion hyn. Rydym yn cefnogi cynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno cyfraith newydd wedi'i chynllunio i atal coedwigoedd ac ardaloedd naturiol pwysig eraill rhag cael eu troi yn dir amaethyddol yn anghyfreithlon.

Byddai'r gyfraith rydyn ni'n ei chynnig yn gweithio drwy ganiatáu i nifer cymharol fechan o fusnesau mawr i wneud yn siŵr bod y nwyddau 'rhoi coedigoedd mewn perygl' y maent yn eu defnyddio – nwyddau allai achosi datgoedwigo eang iawn – wedi eu cynhyrchu'n gyfreithiol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y rheswm am hyn yw oherwydd, yn fyd-eang, nad yw cyfran fawr o'r achosion o glirio coedwigoedd ar raddfa fawr i gynhyrchu'r nwyddau hyn yn cael eu hystyried yn gyfreithiol.

Rydym yn cefnogi cyfeiriad Llywodraeth y DU er mwyn cynnal safle Cymru fel arweinydd byd-eang yn ein hymatebion i'r newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol disgwyl i nifer fechan o fusnesau mwy yr effeithir arnynt gan y rheoliad hwn orfod gweithio gyda phroses wahanol yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill y DU. Byddai hyn yn arwain at gynnydd di-angen yng nghostau busnes o ganlyniad i gydymffurfio gyda mwy nag un cyfres o brosesau.

### **Cwestiwn 2:**

Dechreuodd ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y gwelliant arfaethedig ar 25 Awst a daeth i ben ar 5 Hydref. Roedd rhanddeiliaid o Gymru yn gallu cymryd rhan er mwyn mynegi eu barn. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Tachwedd 2020:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/933985/due-diligence-forest-risk-commodities-government-response.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/933985/due-diligence-forest-risk-commodities-government-response.pdf)

### **Cwestiwn 3:**

Rydym yn fodlon bod buddiannau Cymru yn cael eu diwallu'n ddigonol gan y ddarpariaeth hon oherwydd credwn ei bod yn well cael dull cyson o weithredu'r ddarpariaeth hon ledled y DU. Byddai hyn yn darparu dull symlach ac effeithlon ledled y DU.

### **Cwestiwn 4:**

Nid ydym yn bwriadu ceisio unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth hon.

### **Cwestiwn 5:**

Mae fy swyddogion wedi sicrhau cytundeb i gael eu diweddarau a'u hysbysu am hynt y gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth hon gan swyddogion DEFRA ac maent wrthi'n cytuno ar fanylion sut a phryd y bydd hyn yn digwydd.

### **Cwestiwn 6:**

Derbyniodd swyddogion gadarnhad ar 8 Ionawr 2021 gan arweinwyr DEFRA:

'Bydd gorfodi'r gyfraith diwydrwydd dyladwy yn cael ei wneud gan un o reoleiddiwy'r Llywodraeth, a fydd yn helpu busnesau i ddeall y gofynion ac ymchwilio i'w cydymffurfiaeth, ond rydym yn dal wrthi'n cadarnhau pa reoleiddiwr (ledled y DU) fydd hwn. Gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol bellach yn destun craffu yn y Senedd ym Mesur yr Amgylchedd, rydym yn troi ein sylw at yr is-ddeddfwriaeth y bydd manylion gorau'r ddeddfwriaeth yn cael eu nodi drwyddynt ac at y canllawiau cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys mwy ar yr hyn y mae'n ofynnol i'r cwmnïau sydd o fewn cwrmpas ei wneud a sut yn union y cânt eu monitro.'

Fel a nodir yn (5) uchod bydd fy swyddogion yn cysylltu gydag arweinwyr DEFRA i gael mwy o fanylion wrth i'r gwaith ddatblygu.

## Cwestiwn 7:

Rydych yn gywir i nodi na chyflwynodd DEFRA Welliant gan y Llywodraeth i gryfhau dyletswydd i'r OEP ymgynghori â chyrff cyfatebol yn y cam Pwyllgor Gweinyddiaethau Datganoledig yn Nhŷ'r Cyffredin. Gallaf hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi dod i gytundeb mewn egwyddor â Defra i gyflwyno'r gwelliant i Gymal 26(1) yng Nghyfnod Tŷ'r Arglwyddi ac rwy'n fodlon â'r dull hwn.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end of the name.

**Lesley Griffiths AS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig